

12/03/21

Annwyl rieni warcheidwaid

Ar ddechrau'r wythnos fe ysgrifennais atoch i rannu gwybodaeth gychwynnol am drefniadau ailagor Ysgol Glan Clwyd o ddydd Llun Mawrth y 15fed ymlaen. Erbyn hyn felly hoffwn rannu gwybodaeth fanylach gyda chi yn y llythyr hwn a'r Canllaw Ailagor swyddogol sydd yn yr atodiad.

Mae'r Canllaw Ailagor yn cynnwys llawer iawn o fanylder ac yn pwysleisio'r holl gamau yr ydym yn eu cymryd fel ysgol er mwyn sicrhau diogelwch pawb o fewn ein cymuned, a hynny er mwyn i bawb o fewn teulu Ysgol Glan Clwyd allu ailgydio yn eu dysgu a symud ymlaen yn hyderus. Yn y llythyr hwn fodd bynnag hoffwn dynnu eich sylw at rai penawdau amlwg— er bod y manylder go iawn i'w ganfod yn y Canllaw Ailagor:

Amserlen Dychwelyd y disgyblion i Ysgol Glan Clwyd

(Cyn i bawb ddychwelyd yn llawn amser wedi'r Pasg)

Diwrnod	Dyddiad	BI7	BI8	BI9	BI10	BI11	BI12	BI13
Wythnos 1								
Llun	15/03/2021					✓		✓
Mawrth	16/03/2021					✓		✓
Mercher	17/03/2021					✓	✓	✓
Iau	18/03/2021				✓	✓	✓	✓
Gwener	19/03/2021				✓	✓	✓	✓
Wythnos 2								
Llun	22/03/2021				✓	✓	✓	✓
Mawrth	23/03/2021	✓				✓	✓	✓
Mercher	24/03/2021		✓			✓	✓	✓
Iau	25/03/2021			✓		✓	✓	✓
Gwener	26/03/2021				✓	✓	✓	✓
Ar ôl Gwyliau Pasg								
Llun	12/04/2021	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Oriau ysgol

Nid oes unrhyw newid i amser y diwrnod ysgol yn Ysgol Glan Clwyd gyda'r diwrnod ysgol yn cychwyn am 9:00 i bob disgybl ac yn gorffen am 3:30. Hoffem hysbysu rhieni na fydd mynediad i'r adeilad cyn 8:45 yn y bore felly ni ddylid gollwng disgyblion ar y safle yn gynnar.

Byddwn am yr wythnosau cyn y Pasg yn parhau gyda'r amserlen draddodiadol sydd yn ei lle ar hyn o bryd. Bydd pawb yn dilyn yr un amseroedd gwersi – gan gynnwys y gwersi ar-lein i'r disgyblion na fydd ar y safle. Yn dilyn y Pasg bydd amserlen yr ysgol yn cael ei rhannu eto er mwyn rhannu amseroedd egwyl a chinio – ond byddwch yn derbyn mwy o wybodaeth am hynny eto.

Cludiant

Mae'r holl gludiant ysgol yn cael ei reoli a'i gydlynu gan adran cludiant Cyngor Sir Ddinbych ac o ddydd Llun, Mawrth 15fed, ymlaen bydd y cludiant ysgol yn rhedeg yn llawn fel arfer ar gyfer pob blwyddyn.

Rhaid pwysleisio wrth gwrs fod gorchuddion wyneb 3 haen yn orfodol ar gludiant ysgol yn Sir Ddinbych ac felly mae angen sicrhau hyn ar gyfer eich plentyn. Byddant yn cael eu gwrthod ar y bws os nad oes ganddynt orchuddion wyneb.

Arlwyo

Bydd cyfleusterau arlwyo yn parhau i fod ar gael a bydd darpariaeth ar gyfer bwyd i'r holl fyfyrwyr sydd ei eisiau, gan gynnwys ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ond bydd y cyfleusterau arlwyo ar gael amser cinio yn unig.

Mae'n hanfodol fod rhieni yn sicrhau fod gan ddisgyblion arian digonol ar y cyfrif ParentPay oherwydd ni fyddwn yn gallu derbyn arian parod yn yr ysgol o gwbl, ac ni fydd y peiriant talu ParentPay yn yr ysgol yn weithredol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio i ail-gyflwyno'r defnydd o ffynhonnau dŵr yn ddiogel ar gyfer tymor yr haf – ond bydd gwybodaeth bellach i rieni a disgyblion am hyn yn yr wythnosau nesaf. Felly am y bythefnos cyn y Pasg atgoffir rhieni eto y dylid sicrhau fod eich plentyn yn dod â photel bersonol i'r ysgol.

Mynediad i'r ysgol

Bydd mynediad/allanfa wahanol ar gyfer pob blwyddyn ysgol – a byddwn yn cyfathrebu'r wybodaeth yma'n glir i'r disgyblion. Mewn gwirionedd mae'r disgyblion yn gyfarwydd gyda'r mynedfeydd hyn a'r drefn hon ers y cyfnod diwethaf o ailagor.

Gwisg ysgol

O Fawrth y 15fed bydd yr ysgol yn dychwelyd i'w disgwyliadau gwisg ysgol arferol. Mae gwisg ysgol yn chwarae rhan werthfawr wrth gyfrannu at ethos yr ysgol ac yn gosod y naws briodol.

Rydym yn derbyn fod peth hyblygrwydd yn mynd i orfod bod yn y wisg ysgol. Y nod felly yw hi i ddisgyblion gadw mor agos â phosib at ddisgwyliadau'r wisg ysgol arferol. Byddwn yn gwbl ystyriol o sefyllfa pob disgybl parthed ei wisg ysgol ac yn derbyn na fydd ein safonau uchaf arferol yn gallu cael eu cynnal ar bob achlysur.

Disgwylir i ddisgyblion wisgo'n drwsiadus hyd yn oed mewn sefyllfa lle mae rhan o'r wisg ysgol wedi ei haddasu o ganlyniad i amgylchiadau personol. Yn yr achosion hyn gofynnwn i rieni gyfathrebu yn brydlon ac yn glir gyda ni.

Presenoldeb

Rydym yn disgwyl i bob disgybl yn awr ddychwelyd yn y drefn a eglurir yma, gan arwain at ddychweliad llawn wedi gwyliau'r Pasg. Fodd bynnag rhaid pwysleisio na ddylai unrhyw ddisgybl fynd ar gludiant ysgol na dod i'r ysgol os oes awgrym o symptomau coronafeirws. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid aros gartref, cysylltu gyda'r ysgol a threfnu prawf ar fyrder.

Mygydau/Gorchuddion Wyneb

Erbyn hyn mae'r canllawiau wedi eu tynhau o ran gwisgo mygydau/gorchuddion wyneb pan na ellir sicrhau pellter cymdeithasol. Golyga hyn felly y bydd yn rhaid i ddisgyblion wrth ddychwelyd y tro hwn wisgo gorchuddion wyneb yn amlach tra yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys tu mewn a thu allan i'r adeilad, gan gynnwys mewn gwarsi ac ar yr iard. Mae'n bwysig fod y gorchuddion wyneb yn rhai safonol tair haen a bydd pob disgybl yn derbyn cyflenwad gennym a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Profion Llif Unffordd

Bydd pob disgybl ym Mlynnyddoedd 10 - 13 yn cael cynnig citiau Profi Llif Unffordd. Bydd yr ysgol yn dosbarthu y citiau i'r disgyblion yn yr ysgol pan fyddant yn dychwelyd yr wythnos nesaf. Byddwch fel rhieni yn derbyn gohebiaeth ar wahân am y cynllun hwn.

Hwb yr ysgol

Bydd yr Hwb ysgol yn parhau ar agor yn ystod y bythefnos yma o ailagor graddol ar gyfer y dysgwyr sy'n ddibynol arno. Ond angen i chi gyfathrebu yn glir gyda'r ysgol gan fod lleoliadau yn yr ysgol yn mynd yn dynnach wrth i ni ailagor a defnyddio gwahanol barthau.

Byddwn yn cyfathrebu'n gyson gyda chi yn ystod y cyfnod nesaf hwn wrth i ni gynllunio i ailagor yn llawn ar Ebrill 12fed ac wrth i ni baratoi i rannu gwybodaeth gyda rhieni Blynnyddoedd 11, 12 a 13 am y drefn raddio cymwysterau ar gyfer haf 2021.

Yn y cyfamser hoffwn gadarnhau ein bod yn Ysgol Glan Clwyd yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu ein disgyblion a'n myfyrwyr yn ôl atom i'r ysgol yn ystod y bythefnos nesaf – a hynny mewn modd diogel a chyfrifol er mwyn i ni allu ail-gydio yn y dysgu a symud ymlaen yn hyderus i'r tymor nesaf.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth gyson.

Yn gywir



Gwyn Tudur
Pennaeth